# CYNGOR SIR CEREDIGION

## GWASANAETH YSGOLION

## CORFF LLYWODRAETHU
## YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL TAL-Y-BONT

## 4.00 – 5.40 PM, 20 MAWRTH 2024

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol (Hybrid):** | Bethan Davies (Cadeirydd), Sara Hughes, y Cynghorydd Catrin MS Davies, Trish Huws, Helen Owens, Siwan Evans, Cathryn Lloyd-Williams, Hefin Jones (Pennaeth). |
| | Pauline Lucas (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr) |

| Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu: | | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|---|
| **1** | **YMDDIHEURIADAU:** | | |
| | Cyflwynwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Rhian Nelmes.<br>**PENDERFYNWYD** derbyn yr ymddiheuriad. | | |
| **2** | **DATGELU BUDDIANT / CYFRINACHEDD:**<br>Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r pwyntiau canlynol: | | |
| | a) | yr angen i ddatgelu buddiant mewn unrhyw eitem ar yr agenda neu sy'n cael ei thrafod yng nghyfarfod y Corff Llywodraethu a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt adael y cyfarfod; | |
| | b) | y byddai unrhyw ddatgeliad o fuddiant yn cael ei gofnodi; | |
| | c) | bod eitemau a drafodir mewn cyfarfodydd yn gyfrinachol ac nad ydynt i'w trafod yn gyhoeddus. | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi'r uchod. | | |
| **3** | **AELODAETH Y CORFF LLYWODRAETHU**: | | |
| | Nodwyd bod cyfnod Trish Huws fel Llywodraethwr Cymunedol yn dod i ben. Diolchwyd i Trish am ei holl waith caled, yn enwedig gyda materion yn ymwneud ag ADY. Roedd hi wedi bod yn gefnogol iawn i'r holl staff.<br>Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:<br>Y byddai Helen Owens yn cael ei henwebu fel Llywodraethwr Cymunedol am gyfnod o bedair blynedd ac y byddai swydd wag y Rhiant-lywodraethwr yn cael ei hysbysebu.<br>Y byddai Siwan Evans yn cael ei henwebu fel Llywodraethwr gyda chyfrifoldeb am ADY. | | |

| Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu: | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|
| **3i** | **COFNODION:** | |
| | Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09.11.2023, a byddent yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd a byddai copi'n cael ei ddychwelyd i adran y Llywodraethwyr. | |
| **3ii** | **MATERION SY'N CODI O'R COFNODION:** | |
| | Dim materion i'w trafod. | |
| **4** | **COFNODION PWYLLGORAU:** | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi'r canlynol:<br>**Staffio a Phersonél:** Byddai'n cael ei fonitro'n agos yn y ddau dymor nesaf.<br>**Lles:** Roedd Bethan Davies a Rhian Nelmes wedi bod i mewn i'r Ysgol i gwrdd â'r disgyblion ac wedi gwrando ar eu syniadau. Roedd angen anogaeth ar rai disgyblion i siarad ac nid oeddent yn hyderus.<br>Roedd y rhieni wedi ymateb yn gadarnhaol i'r holiadur.<br>**Diogelwch y Safle**: Roedd y cofnodion ar gael ar Teams. Roedd giât a ffens newydd yn cael eu codi. Roedd mynediad i'r ysgol, tra bod y gatiau wedi'u cloi yn cael ei drafod a byddai Swyddog Iechyd a Diogelwch yr awdurdod lleol yn ymweld.<br>**Cyllid:** Cynhaliwyd cyfarfod y tymor diwethaf. Roedd gostyngiad yn niferoedd y disgyblion ar hyn o bryd ond roedd nifer dda yn y Cylch Meithrin. Byddai cyllid yn cael ei fonitro'n agos.<br>Mynegwyd pryder nad oedd plant o'r pentref yn dod i'r Ysgol. Byddai'r Ysgol yn cael ei hyrwyddo a byddai'r Pennaeth yn gwneud ymholiadau i weld a allai'r Clwb ar ôl yr Ysgol ymestyn y nosweithiau y maent yn cynnig y ddarpariaeth.<br>Dywedodd y Pennaeth wrth yr Aelodau y byddai'r awdurdod lleol yn cynnal adolygiad o rai ysgolion. | |
| **5** | **CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH AR GYFER CEFNOGI LLYWODRAETHWYR:** | |
| | Roedd copïau o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Clercio Cyrff Llywodraethu eisoes wedi'u dosbarthu i'r Aelodau. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**: | |
| | Prynu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Clercio Cyrff Llywodraethu am y flwyddyn ariannol 2024/2025 ar gost o £1,161.95. | |
| | Bod y dyddiadau canlynol wedi'u pennu ar gyfer cyfarfodydd y Corff Llywodraethu yn 2024/2025:<br>Tymor yr Haf (Hybrid): 25.04.2024<br>Tymor yr Hydref (Hybrid): 07.11.2024<br>Tymor y gwanwyn (Hybrid): 26.03.2025 | |
| **6** | **ADRODDIAD Y PENNAETH:** | |

| Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu: | | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|---|
| | Trefnwyd o'r blaen bod copi o adroddiad y Pennaeth ar gael i'r Aelodau. Cafwyd trafodaeth ar y canlynol: | | |
| | a) | **Cynllun Datblygu'r Ysgol:** Nodwyd y cynnydd tuag at y blaenoriaethau.<br>**Blaenoriaeth 1:** Parhau i ddatblygu prosesau asesu a thracio cynnydd disgyblion. Mae llawer o waith wedi'i wneud yn y maes hwn ac mae'r staff yn hapus gyda'r cynnydd a wnaed.<br>**Blaenoriaeth 2**: Sicrhau bod rôl strategol ADY yn datblygu ar draws y ddwy ysgol er mwyn gwreiddio ymhellach weithdrefnau'r rhaglen trawsnewid ADY.<br>Sicrhau bod rôl y Cydlynydd Iechyd a Lles yn gwreiddio ymhellach ar draws y ddwy ysgol.<br>Mae oriau staff wedi'u torri oherwydd cyfyngiadau ariannol sydd wedi cael effaith ar forâl a lles staff. Mae'r sefyllfa wedi bod yn heriol.<br>**Blaenoriaeth 3**: Datblygu ymhellach agweddau disgyblion at eu dysgu gan gynnwys datblygu annibyniaeth, cydnerthedd a dyfalbarhad er mwyn sicrhau mwynhad yn eu dysgu.<br>Mae annibyniaeth disgyblion wedi datblygu'n fawr ac maent yn mwynhau'r broses gynllunio. | |
| | b) | **Lles**: Cafwyd trafodaeth ar les ac effaith hirhoedlog y pandemig ar rai disgyblion a'u teuluoedd, yr oedd disgyblion eraill yn sylwi arni. Mae Staff a Disgyblion yn parhau i gael eu cefnogi yn y maes hwn. | |
| **6ii** | **CYFRIF ARIANNOL PREIFAT YR YSGOL:** | | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi nad oedd gan yr Ysgol ddim cyfrif o'r fath. | | |
| **6iii** | **CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH** : | | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi bod tua £3,000 yn y cyfrif a ddefnyddir bob blwyddyn i brynu tocyn llyfr i'r rheini ym Mlwyddyn 6 sy'n gadael yr ysgol. | | |
| **7** | **HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR:** | | |
| | Dywedodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr wrth yr Aelodau y cynhaliwyd Fforwm y Llywodraethwyr ar 21 Chwefror (6pm trwy Zoom). Roedd y Pennaeth wedi mynychu ac wedi ei gael yn ddiddorol. | | |
| **8i** | **POLISÏAU - DOGFENNAU STATUDOL:** | | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi bod y Dogfennau Statudol canlynol ar gael yn yr Ysgol.<br>Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr<br>Cofrestr o Fuddiannau Busnes<br>Cynllun Gwella'r Ysgol<br>Llawlyfr/Prosbectws yr Ysgol<br>Adroddiad Hunanwerthuso'r Ysgol<br>**I adolygu a oes newidiadau wedi digwydd:**<br>Cynllun Hygyrchedd (bob 3 blynedd)<br>Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolygiad o'r Ysgol | | |

| Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu: | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|
| | Trefniadau Asesu (asesiadau statudol diwedd y Cyfnod Sylfaen a CA2/3 a phennu targedau)<br>Lwfansau Llywodraethwyr<br>Offeryn Llywodraethu<br>Cofnodion a Phapurau Cyfarfodydd a Phwyllgorau'r Corff Llywodraethu<br>Cofrestr o Ddisgyblion a phresenoldeb<br>Cynlluniau Pontio<br>Cynllun Argyfwng a Chydnerthedd<br>Rhyddid Gwybodaeth a Chyhoeddi. | |
| **8ii** | **POLISI TÂL ATHRAWON 2023-2024**: | |
| | Trefnwyd o'r blaen bod copi o'r polisi ar gael i'r Aelodau. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r polisi. | |
| **9** | **GOHEBIAETH / MATERION PERSONOL:** | |
| | Dim materion i'w trafod. | |
| **10** | **UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD YMLAEN LLAW:** | |
| | Dim materion i'w trafod. | |
| **11** | **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:** | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi y byddai cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethu Llawn yn cael ei gynnal ar 13.06.2024. | |

PL
03:04:2024